**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB)**

**PWNC:** **CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB) - DYDD LLUN, 15 MAWRTH 2021 DYDD LLUN, 15 MAWRTH 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: M. Cook (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
D. Bevan
G. A. Davies
G. L. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
K. Hayden
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
L. Parsons
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
S. Thomas
H. Trollope
B. Willis
L. Winnett
A. Williams

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd S. Healy<br>Cynghorydd M. Cross<br>Cynghorydd T. Sharrem<br>Cynghorydd G. Collier<br>Cynghorydd G. Paulsen<br>Mr. T. Baxter (Aelod Cyfetholedig) | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Codwyd y datganiadau buddiant a goddefebau dilynol:-<br><br>Cynghorydd B. Summers – Eitem 6 – Monitro Cyllideb Refeniw Rhagolwg Alldro hyd 31 Mawrth 2021 (fel ar 31 Rhagfyr 2020) (Silent Valley)<br><br>Cynghorydd M. Cook - Eitem 6 – Monitro Cyllideb Refeniw Rhagolwg Alldro hyd 31 Mawrth 2021 (fel ar 31 Rhagfyr 2020) (Silent Valley)<br><br>Cynghorydd P. Edwards - Eitem 6 – Monitro Cyllideb Refeniw Rhagolwg Alldro hyd 31 Mawrth 2021 (fel ar 31 Rhagfyr 2020) (Silent Valley)<br><br>Cynghorydd J.C. Morgan - Eitem 6 – Monitro Cyllideb Refeniw Rhagolwg Alldro am Flwyddyn Ariannol 2020/21 (fel ar 31 Rhagfyr 2020) (THi Tredegar) | |
| No. 4 | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgor Craffu a gynhaliwyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | ar 23 Chwefror 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 23 CHWEFROR 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Cydbwyllgor Craffu (Monitro'r Gyllideb) a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021.<br><br><u>Adolygiad o'r Unedau Diwydiannol</u><br><br>Cododd Aelod bryderon am y diffyg parhaus a adroddwyd ar gyfer y maes hwn a bod yr un materion yn cael eu codi o hyd. Nododd yr Aelod fod bob amser adolygiad 'arfaethedig' i edrych ar brydlesau ac annog defnydd. Credai'r Aelod y dylai'r Awdurdod feithrin perthynas gyda defnyddwyr i sicrhau fod unedau lan i'r safon ac yn barod i gael eu prydlesu. Byddai hefyd yn fanteisiol pe byddai'r stadau diwydiannol yn ddeniadol i ddarpar gwsmeriaid.<br><br>Dywedodd Aelodau bod angen buddsoddiad i sicrhau bod unedau diwydiannol yr Awdurdod yn addas i'r diben er mwyn creu a chynnal cyflogaeth ym Mlaenau Gwent.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod gan yr Awdurdod gyfraddau defnydd uchel ar gyfer unedau diwydiannol. Roedd y Pwyllgor Craffu Adfywio hefyd wedi ystyried rhaglen o waith oedd wedi canolbwyntio i ddechrau ar Stad Ddiwydiannol Roseheyworth oedd yn golygu nad oedd unedau yn cael eu defnyddio oherwydd eu cyflwr gwael, fodd bynnag mae'r unedau hyn yn llawn. Felly, teimlai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol fod gwaith buddsoddi yn dangos buddion lle cafodd ei wneud.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr Awdurdod wedi edrych ar ar ôl busnesau presennol ym Mlaenau Gwent yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod hynny'n iawn a phriodol yn ystod cyfnod ansicr y pandemig.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach y cafodd swydd wag ei llenwi o fewn y Tîm ar gyfer swyddog i ddelio gydag unedau. Mae 180 uned ar draws Blaenau Gwent ac mae'r tîm yn gweithio eu ffordd drwy'r unedau hyn wrth iddynt ddod yn wag neu gyda phrydleswyr presennol. | |

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymdeithasol mai dim ond un adolygiad a fu ac y datblygwyd cynllun gweithredu. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol gyda rhwystredigaeth y bu cynnydd yn araf yn y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag nifer fach o unedau sy'n wag ac mae defnydd uchel ar unedau. Mae'n bwysig fod unedau diwydiannol Blaenau Gwent yn parhau i dderbyn buddsoddiad er mwyn denu tenantiaid ac y caiff yr holl amcanion hyn eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Y Gronfa Llyfrau

Ailadroddodd Aelod y cwestiwn a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Craffu yng nghyswllt y gwariant o £50,000 ar lyfrau yn 2019/20 a gynyddodd eleni. Mae tua £82,000 wedi ei neilltuo ar gyfer y gronfa llyfrau a gofynnodd yr Aelod lle cafodd gweddill yr arian ei wario.

Nododd yr Aelod y caiff adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu cyn rhoi'r nodyn gwybodaeth; fodd bynnag teimlai'r Aelod y dylid hefyd gyflwyno'r adroddiad i'r Cydbwyllgor Craffu er gwybodaeth yn dilyn y cais a wnaed.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yng nghyswllt Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Byddir yn awr yn llunio nodyn gwybodaeth ar gyfer Aelodau'r Cydbwyllgor Craffu sy'n rhoi manylion y gwariant hanesyddol a'r cynigion ar gyfer y dyfodol.

Ymunodd y Cynghorydd W. Hodgins â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

Dilynodd trafodaeth bellach am y gwariant ar y gronfa llyfrau a chytunwyd y cyflwynir nodyn gwybodaeth sy'n rhoi lefel y gwariant ar y gronfa llyfrau a disgwyliadau o safbwynt y Cyngor.

Cododd Aelod bryderon am gyflwyno nodyn gwybodaeth i'r Cydbwyllgor Craffu a theimlai na fedrid craffu ar hynny yn yr un ffordd ag adroddiad. Cadarnhaodd y Pwyllgor Craffu y gallai nodyn gwybodaeth gael ei ystyried gan y Cydbwyllgor Craffu, fodd bynnag byddai angen cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.

Felly CYTUNWYD i gyflwyno nodyn gwybodaeth i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Craffu.

| | | |
|---|---|---|
| | Codwyd pryderon pellach am geisiadau i adroddiadau gael eu cyflwyno i Gydbwyllgor Craffu pe byddai Aelodau yn codi materion gan y dywedwyd nad oedd pob Aelod wedi gweld adroddiadau a gyflwynir i Bwyllgorau Craffu eraill ac felly na fedrai herio na chraffu'r wybodaeth.<br><br>Dywedodd y Swyddog Craffu fod gan bob Aelod fynediad i agendâu pob Pwyllgor Craffu ac y gallai eu cydweithwyr ar y Pwyllgor perthnasol godi eu pryderon.<br><br>Yn amodol ar yr uchod, CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – 2020/2021, RHAGOLWG ALL-DRO HYD 31 MAWRTH 2021 (FEL AR 31 RHAGFYR 2020)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn amlinellu rhagolwg sefyllfa ariannol hyd ddiwedd mis Mawrth 2021 ar draws pob portffolio, rhagolwg all-dro ar gyfer ffioedd a chostau a chynnydd ar brosiectau Pontio'r Bwlch ar gyfer 2020/2021.<br><br>Nododd y Prif Swyddog Adnoddau fod y rhagolwg all-dro cyffredinol fel ym mis Rhagfyr 2020 yn amrywiad anffafriol o £4.719m. Fodd bynnag, yn dilyn derbyn cyllid Caledi gan Lywodraeth Cymru mae'r rhagolwg yn amrywiad ffafriol o £0.552m sy'n sefyllfa llawer gwell o gymharu gyda'r rhagolwg ym mis Medi 2020 sy'n adrodd amrywiad anffafriol o £0.248m ar ôl y cyllid caledi.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau ymhellach am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg manwl o ragolwg y sefyllfa ariannol gyffredinol ar draws pob portffolio fel ar 31 Rhagfyr 2020 ac amlinellodd y prif amrywiadau anffafriol. Nododd y Prif Swyddog y rhoddir manylion cynlluniau gweithredu i fynd i' afael â'r pwysau cost yn Atodiad 4.<br><br>Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau/sylwadau gan y Pwyllgor.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at orwariant mewn rhai meysydd cyllideb. Teimlai nad oedd hynny yn ddim bai ar yr adran neu staff ond yn ymwneud â'r penderfyniadau a wneir gan Aelodau. Nododd yr Aelod | |

sefyllfa'r Portffolio Amgylchedd sydd mewn diffyg heb fawr neu ddim ymgais yn cael ei wneud i drin y pwysau cyllideb. Ymddangosai nad oedd unrhyw ymdrech i wrthbwyso'r pwysau cost hyn a chredai'r Awdurdod fod gan yr Awdurdod ddyletswydd gofal i sicrhau y caiff cyllidebau eu cadw mewn sefyllfa ffafriol yng ngoleuni'r arian caledi a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru. Teimlai'r Aelod y dylai'r Aelod Gweithredol sy'n gyfrifol am bortffolio'r Amgylchedd a'r portffolio Adfywio gael y dasg o ystyried y pwysau cost parhaus hyn.

Nododd yr Aelod ymhellach yr amrywiad ffafriol a adroddir am yr ail HWRC yn Roseheyworth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr amrywiad ffafriol oherwydd yr oedi mewn agor yn ogystal ag incwm a ragwelir ar gyfer gwastraff bag du a gaiff ei ddargyfeirio.

Dywedodd yr Aelod nad oedd yn teimlo fod Awdurdod o'r maint hwn angen ail HWRC a bu'n feirniadol o'r penderfyniad. Credai'r Aelod fod Aelodau yn disgwyl gormod a theimlai bod yr adroddiad yn dangos faint o waith sydd ei angen i gael cyllideb gytbwys. Nododd yr Aelod fod rhai materion yn dymhorol, fodd bynnag mae hefyd lawr i wneud penderfyniadau yn y meysydd hyn a dylai'r Aelod Gweithredol cyfrifol edrych sut y gellid cyflawni gostyngiadau er mwyn gostwng y pwysau cost hyn.

Nododd y Cadeirydd y bu'r penderfyniad am ail safle HWRC yn Roseheyworth wedi bod yn benderfyniad gan y Cyngor a nododd y Cadeirydd ei fod yn croesawu'r penderfyniad gan fod angen ail HWRC.

Nododd Aelod arall y sylwadau a wnaed yng nghyswllt gorwariant mewn portffolios a gofynnodd os yw'r swm perthnasol o arian yn cael ei ddyrannu i gyllidebau i atal gorwariant.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod peth o wariant y portffolio yn cael ei arwain gan alw, felly mae'n anodd alinio'r gyllideb. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod incwm ar gyfer ailgylchu yn amrywio ac dywedodd fod y prisiau am blastig wedi gostwng yn ystod y pandemig a bod hynny wedi effeithio ar y gyllideb. Mae nifer o faterion hefyd yn dibynnu ar ymddygiad cymunedol, fodd bynnag cafodd y gyllideb ei gosod hyd eithaf ein tybiaethau.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach y bu cyllideb y

| | | |
|---|---|---|
| | flwyddyn flaenorol yn agos at fod yn gytbwys, fodd bynnag bu eleni yn anodd a chafodd llawer iawn o wastraff bagiau du ei gasglu lle mae costau ar gyfer gwaredu â'r gwastraff.<br><br>Ychwanegodd y Prif Swyddog Adnoddau y dyrannwyd cyllideb ychwanegol o £464,000 fel rhan o broses gosod cyllideb 2021/22 i fynd i'r afael â phwysau cost ym mhortffolio'r Amgylchedd. Byddai hyn yn cynorthwyo wrth sicrhau cyllideb gytbwys.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am y gostyngiad mewn incwm deunydd ailgylchu sydd wedi effeithio ar y gyllideb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y cafodd cynnydd bach ei adrodd ers mis Medi a fyddai i'w weld yn y balans diwedd blwyddyn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y gostau am waith daear ym Mharc yr Ŵyl a gofynnodd os oes cost yn parhau i fod yn yr ardal hon gan fod y cwmni wedi mynd i weinyddiaeth, wedi diswyddo staff, ac felly tybiai'r Aelod na ddylai'r Cyngor mwyach fod yn talu am waith daear a gofynnodd os y byddai ad-daliad.<br><br>Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr arian a dalwyd yn rhan o drefniant prydles wrthdro rhwng y Cyngor a pherchnogion y safle. Fodd bynnag, roedd y pwynt a wnaed yn ddilys ac ni ddylai'r Cyngor fod yn talu am bethau nad oedd wedi eu derbyn a byddid yn codi'r mater gyda'r perchnogion presennol.<br><br>Gofynnodd Aelod pam fod Clybiau Brecwast yn cael eu hadrodd dan bortffolio'r Amgylchedd ac nid y portffolio Addysg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y cafodd y gwasanaeth hwn ei drosglwyddo i Arlwyo i sicrhau fod ffocws yr Adran yn parhau ar faterion Addysg. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y caiff adnoddau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru eu rhoi i'r tîm Arlwyo sy'n cyflawni'r gweithgaredd hwn ar ran Addysg.<br><br>Mewn ymateb i arian a dderbyniwyd ar gyfer y gwaith priffyrdd ar heol Cwm i Aber-bîg, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y derbyniwyd y cyllid drwy'r gronfa llifogydd. Cofiai'r Prif Swyddog Adnoddau i Aelodau gytuno y dylai buddsoddiad cyfalaf a ddyrannwyd ar gyfer y Bwa Mawr i wneud gwaith priffyrdd ar heol Cwm i Aber-bîg. Cafodd y cyllid hwn yn awr ei adfer gan y derbyniwyd cyllid llifogydd, felly ni roddir | |

manylion unrhyw effaith ar y cyllidebau yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag byddai'n amlwg yn yr adroddiad cyfalaf fod yr arian yn awr yn ôl yn eu lle.

Gofynnodd Aelod am yr effaith a gafodd y pandemig ar gasgliadau Treth Gyngor. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y rhagwelwyd y byddai gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau casglu oherwydd yr heriau a wynebwyd gan Covid-19 ac mae cyfraddau casglu yn 92-93% ar hyn o bryd. Nododd y Prif Swyddog y rhagwelwyd y byddai'r amcangyfrif casgliadau yn 95% a theimlai'r Aelod fod hwn yn newydd da yn yr amgylchiadau presennol.

Mewn ymateb i gastiwn am gost clirio tipio anghyfreithlon, awgrymodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y dylid darparu nodyn gwybodaeth.

CYTUNWYD cyflwyno nodyn gwybodaeth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar gyfer gwybodaeth pob Aelod.

Cyfeiriodd yr Aelod at Atodiad 3 sy'n dynodi hysbysiadau cosb sefydlog ac awgrymodd y dylai hysbysiadau tipio anghyfreithlon hefyd gael eu cynnwys. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol edrych ar gynnwys yr wybodaeth hon a hysbysiadau cosb sefydlog eraill yn gyffredinol.

Nododd Aelod y costau ychwanegol o £111,000 yn y Portffolio Addysg a gofynnodd os byddai hyn yn parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod hwn yn bwysau cost unwaith yn unig yng nghyswllt newidiadau ym mhroffiliau tâl staff o bob 4 wythnos i misol ac ni fyddai'n effeithio ar gyllidebau y flwyddyn nesaf.

Croesawodd Aelod ailagor ysgolion a gofynnodd os yw'r grant caledi yn cynnwys cludiant ychwanegol rhwng y cartref a'r ysgol i sicrhau fod yr Awdurdod yn cydymffurfio gyda chyfyngiadau pellter cymdeithasol Covid-19.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg na chafodd yr asesiadau risg priodol eu cynnal a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt yn nhermau darpariaeth cludiant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod holl ddisgyblion ysgolion cynradd yn ôl yn y ysgol a dim ond disgyblion rhai blynyddoedd mewn ysgolion uwchradd ar hyn o bryd.

| | | |
|---|---|---|
| | Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd pob disgybl ysgol uwchradd yn dychwelyd mewn camau ar ôl gwyliau’r Pasg a chaiff unrhyw gostau sy’n ymwneud â’r angen am fwy o ddarpariaeth cludiant eu hystyried ar gyfer y Gronfa Caledi gan y byddai’n gysylltiedig â Covid-19.<br><br>Gofynnodd Aelod os oes gan yr Awdurdod fynediad i fysus ychwanegol. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt gyda Stagecoach os oes angen bysus ychwanegol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr Awdurdod yn ymwybodol iawn i sicrhau fod plant yn ddiogel a dywedodd y caiff wardeiniaid Covid-19 eu rhoi ar fysus i sicrhau fod pawb yn dilyn y canllawiau.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at ddarn o waith a wnaed o fewn ei Ward yng nghyswllt costau biniau olwyn ac offer ailgylchu a gafodd ei ddwyn ac sydd angen ei adnewyddu. Roedd y costau ar gyfer Ward Blaenau tua £25,000 a dywedodd yr Aelod y cafodd ei hysbysu fod y costau ar gyfer wardiau Brynmawr a Gogledd Glynebwy yn uwch. Teimlai’r Aelod y byddai ailgyflwyno casgliadau lon gefn yn lliniaru llawer iawn o ladrata gan y gellid cadw biniau yn ddiogel yng ngerddi preswylwyr.<br><br>Wedyn gofynnodd yr Aelod beth mae’r Cyngor yn ei wneud i drin y lladrata hwn i ostwng costau. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod hyn yn her fawr a bod yr Adran wedi ceisio deall yr angen am y galw. Mae’n bwysig fod y Cyngor yn gweithio gyda’r gymuned i ddynodi mannau poeth i fynd i’r afael â’r materion hyn.<br><br>Ategodd yr Aelod ei bod yn gwybod am yr heriau ac iddi fod yn rhan o grŵp aml-asiantaeth o fewn ei Ward i fynd i’r afael â’r materion hyn. Fodd bynnag nid yw’r cyngor wedi gwneud unrhyw waith mewn ymgais i ddatrys y mater hwn a gofynnodd yr Aelod am fanylion y gwaith a gaiff ei wneud gan y Tîm Gwastraff i liniaru’r sefyllfa hon.<br><br>Nododd Aelod arall y ffioedd cyfreithiol a gafodd y portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a gofynnodd am ddiweddariad yn nhermau Cytundebau Lefel Gwasanaeth gydag awdurdodau eraill.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol y caiff y mater ei ystyried yng nghyfarfod neif y | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bu'n anodd ceisio cytundebau oherwydd y pandemig, fodd bynnag wrth i gyfyngiadau lacio, gobeithir y gellir edrych ar amgennau er mwyn gostwng y costau hyn.<br><br>Cynigiodd Aelod y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n amlinellu'r costau a gaiff y Cyngor i adnewyddu biniau sbwriel ac ailgylchu a gafodd eu dwyn a hefyd gynnwys costau glanhau ar ôl tipio anghyfreithlon. Teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig fod y materion hyn yn cael eu hystyried i ddynodi ffyrdd i ostwng y costau hyn a thrafod arfer da.<br><br>CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a rhoi'r her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad. | |
| **No. 7** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF. RHAGOLWG AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/2021 (FEL AR 31 RHAGFYR 2020)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad sy'n nodi'r rhagolwg o'r sefyllfa ariannol hyd 31 Mawrth 2021 ar draws pob portffolio ac yn rhoi manylion yr amrywiadau anffafriol a ffafriol sylweddol a gynhwysir yn yr adroddiad.<br><br>Ar y pwynt hwn cododd Aelodau gwestiynau sylwadau yng nghyswllt yr adroddiad a gyflwynwyd.<br><br>Gofynnodd Aelod os oedd y costau a gafwyd ar gyfer y safle HWRC newydd yn Roseheyworth yn gysylltiedig â Covid-19.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y costau oherwydd costau uwch y contractwr oedd yn gysylltiedig â mesurau a gafodd eu rhoi ar waith oherwydd Covid-19 i sicrhau fod gwaith yn parhau yn ystod y pandemig.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y cafodd y costau hyn eu hadlewyrchu mewn contractau ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod y | |

| | | |
|---|---|---|
| | pandemig. Mae'r costau yn ymwneud â'r gweithlu yn gorfod gweithredu pellter cymdeithasol a bu cynnydd mewn cost deunyddiau crai ac oedi wrth gyrchu deunyddiau y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod trafodaethau'n mynd rhagddynt i sicrhau y cedwir y cynnydd mewn costau mor isel ag sydd modd.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw costau Trawsnewid Gweithle yn cynnwys symud Gwasanaethau Democrataidd i'r Swyddfa Gyffredinol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr arian hwn am waith blaenorol yn gysylltiedig â'r rhaglen trawsnewid. Byddai cyllidebau 2021/2022 yn cynnwys costau ar gyfer yr Hybiau Democrataidd a Chymunedol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am Drac Profi Glynebwy, cadarnhawyd fod y costau a nodir yn yr adroddiad craffu yn ymwneud â ffioedd ymgynghori yn cyfeirio at gostau ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Roedd y £50,000 ar gyfer 2020/201 a adroddwyd yn yr adroddiad cyfalaf yn ychwanegol.<br><br>Teimlai'r Aelod y dylai adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod perthnasol o'r Pwyllgor Craffu.<br><br>CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn yr adroddiad ac<br><br>(a) y rhoddwyd her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad;<br>(b) y rhoddwyd cefnogaeth barhaus i'r gweithdrefnau rheoli ariannol priodol fel y cytunwyd gan y Cyngor; a<br>(c) nodi'r gweithdrefnau rheoli'r gyllideb a monitro sydd yn eu lle o fewn y Tîm Cyfalaf i ddiogelu'r Awdurdod. | |
| **No. 8** | **<u>DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL AC WEDI'U CLUSTNODI 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi'r rhagolwg o sefyllfa cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2020/2021 yn Chwarter 3 a nododd y gofynion statudol yn ymwneud â | |

chronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol fel y'u manylir yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Adnoddau at Adran 6 yr adroddiad sy'n rhoi manylion y crynodeb cyffredinol o'r rhagolwg o'r sefyllfa ariannol yng nghyswllt y balansau mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar 31 Mawrth 2021. Fe wnaeth y Prif Swyddog amlinellu Tabl 1 sy'n dangos y sefyllfa rhagolwg uwch ar gyfer y gronfa wrth gefn gyffredinol ar ddiwedd blwyddyn 2020/2021. Mae'r balans yn cynrychioli 5.28% o wariant refeniw net sy'n uwch na lefel targed 4% o £5.414m. Mae hyn yn dangos cynnydd pellach tuag at gryfhau cadernid ariannol y Cyngor ac yn rhoi clustog i ddelio gyda phroblemau annisgwyl yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y rhagolwg cynnydd mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ganlyniad nifer o ffactorau oedd yn cynnwys rhagolwg tanwariant portffolio net o £0.552m a chyfraniad cyllideb a gytunwyd yn 2020/21 o £0.200m. Mae hyn yn cefnogi cynllunio ariannol tymor canol ac yn cryfhau cadernid ariannol y Cyngor. Nododd y Prif Swyddog Adnoddau hefyd y lefel a ragwelir o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi fel ar 31 Mawrth 2021 y disgwylid fyddai'n £9.189m, sydd yn gynnydd diwedd blwyddyn o £0.917m a nododd y Prif Swyddog y rhoddir manylion pellach symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn Atodiad 1.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y caiff lefel a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn eu hadolygu a'u monitro'n gyson drwy adroddiadau all-dro/rhagolwg rheolaidd. Fodd bynnag, o gymharu gydag awdurdodau eraill yng Nghymru, mae Blaenau Gwent yn dal i fod ag un o'r lefelau isaf o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Er mwyn cyrraedd cyfartaledd Cymru, byddai angen i gronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gynyddu'n sylweddol ;i tua £26.4m.

Nododd Prif Swyddog y byddai methiant i gynyddu cronfeydd wrth gefn yn cael ei feirniadu gan reoleiddwyr.

Mewn ymateb i gwestiwn am lefel y cronfeydd wrth gefn, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y bwriadwyd rhoi £1m o arian mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer y flwyddyn nesaf fel rhan o broses gosod y gyllideb, fodd bynnag

| | | |
|---|---|---|
| | mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion sefyllfa 2020/2021.<br><br>Cododd Aelod arall bryderon am lefel yr arian y cytunwyd ei ddodi mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac anghytunai'n gryf gyda'r llwybr gweithredu hwn tra bod preswylwyr Blaenau Gwent wedi dioddef llawer iawn o galedi yn ystod y flwyddyn flaenorol.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod ymhellach at y gorwariant mewn rhai portffolios a gofynnodd os y byddid yn tynnu arian o gronfeydd wrth gefn i sicrhau fod y cyllidebau hyn yn gytbwys.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na fyddid yn tynnu unrhyw arian o gronfeydd wrth gefn gan fod rhagolwg y Cyngor mewn sefyllfa ffafriol, cyn belled nad oes problemau sylweddol. Ychwanegodd y Prif Swyddog y caiff cyllidebau gorwario yn y rhan fwyaf o achosion eu gwrthbwyso gan danwariant mewn meysydd eraill ac na fyddai angen defnyddio cronfeydd wrth gefn i gael cyllideb gytbwys yn y flwyddyn.<br><br>Teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig fod cyllidebau yn realistig i atal gorwariant. Ychwanegodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai gan ddeiliaid cyllideb gyfle i godi'r pryderon hynny os credent nad oedd eu cyllideb yn realistig ac y byddai'r Cyngor yn ystyried y cais fel rhan o broses gosod y gyllideb. dim ond unwaith y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. | |